Diogelu disgyblion rhag trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

# Cam-drin Domestig

## Deall Cam-drin Domestig

IYng Nghymru, mae cam-drin domestig wedi'i gynnwys yn *Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*. Mae Llywodraeth y DU yn disgrifio cam-drin domestig fel:

“unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ymddygiad sy'n **rheoli, yn gorfodi neu'n bygwth, trais neu gamdriniaeth** rhwng pobl 16 oed neu'n hŷn sydd mewn perthynas agos, neu sydd wedi bod mewn perthynas agos, neu aelodau o'r un teulu, ni waeth beth fo'u rhywedd neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys y mathau canlynol o gamdriniaeth, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

**seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol.**

Mae ymddygiad sy'n **rheoli** yn gwneud i unigolyn deimlo'n israddol a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu oddi wrth ei ffynonellau cymorth, ecsbloetio ei adnoddau a'i alluoedd er budd personol, ei amddifadu o'r modd i fyw yn annibynnol, ymwrthod a dianc, a rheoli ei ymddygiad o ddydd i ddydd. Mae ymddygiad sy'n **gorfodi** yn weithred neu batrwm o weithredoedd sy'n cynnwys ymosod, bygwth, bychanu, brawychu neu fath arall o gamdriniaeth er mwyn niweidio, cosbi, neu ddychryn y dioddefwr."

Mae ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli yn **drosedd** yn y DU a gall y cyflawnwr gael ei garcharu am hyd at 5 mlynedd. Mae cam-drin domestig hefyd yn cynnwys yr hyn a elwir yn **drais ar sail ‘anrhydedd**’, a**nffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod**. Gall hefyd gynnwys stelcio, y gellir ei gyflawni'n bersonol neu'n electronig.

### Gall plant brofi cam-drin domestig mewn nifer o ffyrdd:

- Fel **targed bwriadedig** y gamdriniaeth a gyflawnir gan aelod o'r teulu neu bartner / cynbartner rhiant
- **Gweld, clywed a phrofi effeithiau** cam-drin domestig a gyflawnir yn erbyn aelod arall o'r teulu
- Gan eu partner agos presennol neu gynbartner personol, os ydynt yn 16 oed neu'n hŷn (ar gyfer cam-drin mewn perthynas gan unigolion dan 16 oed, gweler y daflen ffeithiau ar gam-drin rhwng cyfoedion).

**Mae cam-drin domestig yn torri hawliau dynol; yn brofiad niweidiol yn ystod plentyndod; a gall effeithio'n negyddol ar lesiant, cyflawniadau a chyfleoedd bywyd plant**

Gall rhai plant wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag datgelu camdriniaeth. Mae'n bwysig bod yr **holl bersonél mewn ysgolion yn ymgyfarwyddo â'r arwyddion** a all ddangos bod plentyn yn wynebu risg o brofi cam-drin domestig, neu eisoes yn ei brofi.

**Os gwelwch arwyddion a/neu clywch wybodaeth sy'n awgrymu bod plentyn yn wynebu risg o brofi cam-drin domestig, mynegwch y pryderon hyn i'ch Person Diogelu Dynodedig.**

### Arwyddion y gall plentyn fod yn wynebu risg o brofi cam-drin domestig, neu eisoes yn ei brofi

- Gorbryder, iselder. neu feddyliau hunanladdol;
- Anawsterau wrth geisio cysgu neu setlo;
- Ymddygiad gor-blesio;
- Oedi datblygiadol neu iaith yn datblygu'n hwyr;
- Ymddygiad ymosodol neu'n gallu goddef lefelau uchel o drais;
- Bwlio a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis fandaliaeth;
- Yn mynnu sylw NEU'N dawel / mynd i'w gragen;
- Gwyliadwrus ond diymateb;
- Tystiolaeth ei fod yn cael ei fonitro gan aelodau o'r teulu / oedolion eraill;
- Yn sâl yn gyson neu'n rheolaidd;
- Anhwylderau bwyta;
- Problemau yn yr ysgol a chael trafferth dysgu;
- Defnyddio cyffuriau neu alcohol.

### Am geisio cyngor arbenigol?

**Llinell Gymorth Genedlaethol Byw Heb Ofn**
0808 80 10 800 / info@livefearfreehelpline.wales
**Llinell Gymorth BAWSO (sefydliad arbenigol i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig)**
0800 73 18 147 / info@bawso.org.uk

### Adnoddau Defnyddiol

Modiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru ar VAWDASV
Pecyn Cymorth i Wylwyr gan Gymorth i Ferched Cymru
NSPCC 'Let Children Know You're Listening'

Diogelu disgyblion rhag trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

# Cam-drin Domestig: Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

Yn ogystal â 'dyletswydd i hysbysu' ysgolion (gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel) mewn perthynas â diogelu, mae camau y gall ysgolion eu cymryd i **atal** cam-drin domestig rhag digwydd / gwaethygu, a chynnig **cymorth** cyfannol i ddioddefwyr a goroeswyr. Yn benodol:

## 1. Addysgu staff, disgyblion a chymuned yr ysgol am gam-drin domestig

Gall rhai plant (ac oedolion hefyd) gredu fod ymddygiad camdriniol yn normal. Felly, mae'n hollbwysig bod ysgolion yn sicrhau bod pob plentyn ac aelod o'r staff yn deall y canlynol:

- beth yw cam-drin domestig, ac nad yw **byth yn iawn**;
- bod **rheolaeth drwy orfodaeth yn fath o gam-drin domestig** a all gael effeithiau gwanychol ar blant a'r rhiant/partner nad yw'n cam-drin, gan gynnwys eu gallu i geisio cymorth;
- bod yr **ysgol yn le diogel** i drafod pryderon a datgelu unrhyw brofiadau neu ofnau;
- y bydd **rhywun yn eu credu ac yn gwrando arnynt**, ac y byddant yn cael eu **cefnogi**.

## 2. Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei gefnogi, gan gynnwys drwy gynnig cymorth arbenigol, ni waeth beth fo lefel ei 'risg'

Ni fydd rhai disgyblion y mynegi pryderon o ran eu diogelwch a'u llesiant yn bodloni'r trothwy i gael adroddiad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Mae'n bosibl y bydd rhai eraill, ond gallai'r Gwasanaethau Cymdeithasol benderfynu nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer ymyriad statudol. Mae'n bwysig bod y plant hyn yn cael eu cefnogi hefyd. Mae'n bosibl bod anghenion ganddynt a allai waethygu i 'risg o niwed' yn ddiweddarach os na chânt eu diwallu'n ddigonol ar y cam cynharach hwn.

## Atal, Ymyrryd yn Gynnar a Chymorth

*Mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd, ac yn uniongyrchol i ysgolion hefyd. Gall gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol gymryd atgyfeiriadau drwy ysgolion. E.e.*

### Atal / Addysg:

- **Rhaglen S.T.A.R. (Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch) -** Grwpiau addysg – mae'r rhain yn addysgu pobl ifanc am berthnasoedd iach, rheolaeth drwy orfodaeth, cydsyniad, a ble i gael cymorth.
- **Prosiect Sbectrwm** a **SchoolBeat** – mae'r ddau yn codi ymwybyddiaeth ac yn addysgu ysgolion am gam-drin domestig.

### Ymyrryd yn Gynnar a Chymorth

- **Cymorth un i un** â gweithiwr plant arbenigol.
- **Pecyn Cymorth ar gyfer Adfer** i bobl ifanc 11-18 sydd wedi profi cam-drin domestig.
- **Grwpiau Adfer S.T.A.R.** – (1) i blant 7-11 oed sydd wedi profi cam-drin domestig (nid oes rhaid i'r achos fod yn gyfredol / yn ddiweddar). Cânt eu cefnogi dros gyfnod o 10 wythnos a'u helpu i ddeall yr hyn sydd wedi digwydd iddynt, eu hymatebion emosiynol, a dysgu strategaethau i reoli eu teimladau'n ddiogel. (2) i blant (7-11 oed) a Mamau – bydd y Mamau yn dilyn rhaglen 10 wythnos ar yr un pryd â'u plant a chânt eu cefnogi i gyfathrebu â'u plant am yr hyn sydd wedi digwydd a sut maent yn teimlo.
- **Rhaglenni mentora** – naill ai gyda grwpiau bach neu unigolion. Caiff plant eu paru â mentor hyfforddedig sy'n treulio amser heb broblemau gyda nhw, yn cael hwyl ac yn gweithio tuag at nodau a osodir gan y plentyn.
- **Grwpiau cymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n dreisgar tuag at eu rhieni.**
- **Cymorth therapiwtig** – megis Therapi Chwarae neu gwnsela.

*Noder na fydd pob gwasanaeth cam-drin domestig yn cynnig yr holl wasanaethau uchod. Gallwch gysylltu â'ch gwasanaeth cam-drin domestig lleol i ganfod pa wasanaethau maent yn eu cynnig.*

Dewch o hyd i'ch gwasanaeth cam-drin domestig lleol a'i fanylion cyswllt drwy glicio **yma** neu drwy fynd i www.welshwomensaid.org.uk/information-and-support/find-your-local-service